

# CBAC TGAU

## Bwyd a Maeth

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

### Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

#### Uned 1: Egwyddorion Bwyd a Maeth

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027





## Cynnwys

Mynediad Deunyddiau Asesu Enghreifftiol	1
Cynllun marcio	2
Grid Mapio	25
Atodiad A – Asesiad Digidol CBAC Bwyd a Maeth	28





SAMPLE

## UNED 1: EGWYDDORION BWYD A MAETH

Asesir Uned 1: Egwyddorion Bwyd a Maeth drwy Arholiad Digidol. Mae'r Deunyddiau Asesu Enghrefftiol ar-lein i'w gweld yma:

<https://web.download.wjec.co.uk/surpass/packaged-exams/GCSE-Food-Nutrition-CY-v2/index.html>

Dilynwch y camau canlynol i weld y Deunyddiau Asesu Enghrefftiol ar-lein:

1. Cliciwch ar y cyswllt sydd wedi'i ddarparu:	
2. Cliciwch ar 'lawn':	
3. Cliciwch ar 'le':	
4. Cliciwch ar 'Cychwyn y Prawf':	
5. Cliciwch ar 'Yn ôl' neu 'Nesaf' ar waelod y sgrin i fynd drwy'r asesiad:	
6. Unwaith y byddwch wedi gweld y Deunydd Asesu Enghrefftiol, caewch y tab neu'r porwr.	

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

#### Egwyddorion marcio cyffredinol

- Mae'r marciau a roddir yn farciau cyflawn bob amser (nid hanner marciau, na ffracsiynau eraill).
- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn.
- Mae'r marciau sy'n cael eu rhoi yn gwbl seiliedig ar y gofynion yn ôl y diffiniad yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gan ystyried trothwyon graddau na disgrifyddion graddau.

#### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi'r ymgeisydd am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys '*Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall*' (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

#### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodir uchod, ni fwriedir i'r cynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys yr holl gynnwys dangosol er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hwn.

### **Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os oedd ymateb yn perthyn i fand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei osod ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at frig band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

### **Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau	
1.	(a)	Llusgwch a gollyngwch <b>ddau</b> osodiad am ddiogelwch bwyd y dylid eu dilyn wrth baratoi cyw iâr amrwd, i'r lle gwag isod.				
		Rhowch <b>un</b> marc am bob gosodiad diogelwch bwyd cywir. Hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.	2			2
		Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl trin cyw iâr amrwd. Defnyddiwch fwrdd torri coch i dorri cig amrwd.				
	(b)	Defnyddiwch y gwymplen i weld a yw'r gosodiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir.				
		Rhowch <b>un</b> marc ar gyfer pob gosodiad diogelwch bwyd wedi'i dicio'n gywir. Hyd at uchafswm o <b>dri</b> marc.	3			3
		Dylid storio cyw iâr amrwd mewn oergell uwchben bwyd wedi'i goginio. Anghywir				
		Dylid cadw tymheredd oergell ar 5°C neu is. Cywir				
		Mae poen yn yr abdomen yn un symptom o wenwyn bwyd salmonela. Cywir				
	(c)	(i) Esboniwch ystyr halogiad ffisegol bwyd. Defnyddiwch enghraifft yn eich ateb.				
		Rhowch uchafswm o <b>un</b> marc am esboniad sylfaenol o halogiad ffisegol, er enghraifft:		2		2
		Eitem estron mewn bwyd nad yw ar gyfer ei fwyta, fel gwallt.				
		Rhowch uchafswm o <b>ddau</b> farc am esboniad mwy datblygedig o halogiad ffisegol sy'n cynnwys enghraifft, er enghraifft:				
		Eitem estron mewn bwyd nad yw ar gyfer ei fwyta a allai beryglu iechyd petai'n cael ei fwyta, fel gwallt.				
		Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

	(ii)	<p>Esboniwch ystyr halogiad cemegol bwyd. Defnyddiwch enghraifft yn eich ateb.</p> <p>Rhowch uchafswm o <b>un</b> marc am esboniad sylfaenol o halogiad cemegol, er enghraifft:</p> <p>Sylweddau/cemegion sydd i'w cael mewn bwyd nad ydynt ar gyfer eu bwyta, fel plaeiddiaid.</p> <p>Rhowch uchafswm o <b>ddau</b> farc am esboniad mwy datblygedig o halogiad cemegol sy'n cynnwys enghraifft, er enghraifft:</p> <p>Sylweddau/cemegion sydd i'w cael mewn bwyd, nad ydynt ar gyfer eu bwyta ac sy'n niweidiol i iechyd pobl os byddant yn cael eu bwyta, fel plaeiddiaid.</p> <p>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.</p>		2		2
	(ch)	<p>Esboniwch ystyr dyddiad defnyddio erbyn.</p> <p>Rhowch uchafswm o <b>un</b> marc am esboniad cyfyngedig.</p> <p>Enghreifftiau o esboniad cyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw bwyd yn cael ei storio'n gywir, bydd yn cael ei gadw tan y dyddiad hwn.</li> <li>Dyddiad sy'n cael ei bennu gan y gwneuthurwr ac mae'r bwyd yn ddiogel i'w fwyta tan y dyddiad hwn.</li> </ul> <p>Rhowch uchafswm o <b>ddau</b> farc am esboniad datblygedig.</p> <p>Enghreifftiau o esboniad datblygedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw bwyd yn cael ei storio'n gywir, bydd yn cadw tan y dyddiad hwn, hyd yn oed os yw'r bwyd yn ymddangos mewn cyflwr da, efallai na fydd yn ddiogel i'w fwyta.</li> <li>Dyddiad sy'n cael ei bennu gan y gwneuthurwr ac mae'r bwyd yn ddiogel i'w fwyta tan y dyddiad hwn, efallai na fydd y bwyd yn edrych nac yn blasu'n wahanol ond nid yw'n ddiogel i'w fwyta.</li> </ul>		2		2



Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau	
2.	(a)	(i)	Nodwch y prif facrofaetholyn sydd i'w gael mewn pasta.				
			Rhowch <b>1 marc</b> am yr ateb cywir	1			1
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Carbohydradau</li> </ul>				
		(ii)	Disgrifiwch swyddogaeth y prif facrofaetholyn sydd i'w gael mewn pasta.				
		Rhowch <b>1 marc</b> am yr ateb cywir	1			1	
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu egni</li> </ul>					
	(b)	Enwch <b>ddau</b> gynhwysyn sy'n cael eu defnyddio i wneud pasta.					
		Rhowch un marc am bob cynhwysyn cywir, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.	2			2	
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• blawd</li> <li>• wy</li> <li>• halen</li> <li>• olew/dŵr</li> </ul>					

	(c)	Rhestrwch ddwy real i'w dilyn wrth goginio pasta.				
		<p>Rhowch <b>un</b> marc am bob rheol gywir a restrir, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio padell ddofn fawr sy'n ddigon mawr i orchuddio'r pasta mewn dŵr.</li> <li>• gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr yn y badell i orchuddio'r pasta.</li> <li>• berwi'r dŵr i ferwi'n ffyrnig cyn ychwanegu'r pasta.</li> <li>• ychwanegu halen / sesnin i'r dŵr i wella'r blas/codi'r berwbwynt.</li> <li>• peidio byth â choginio pasta gyda chaead ar y badell i'w gwneud yn bosibl i'r startsh gormodol anweddu.</li> <li>• troi'r pasta yn y dŵr i'w atal rhag clympio/glynu i waelod y badell.</li> <li>• gwneud yn siŵr bod y pasta yn 'al dente', â chnod cadarn, heb ei or-goginio</li> <li>• draenio'r pasta yn drylwyr ar ôl ei goginio mewn colander ac ysgwyd i gael gwared ar unrhyw ddŵr sy'n weddill.</li> </ul>	2			2
	(ch)	(i)	<p>Enwch <b>un</b> dull o drosglwyddo gwres sy'n cael ei ddefnyddio wrth goginio pasta.</p> <p>Rhowch <b>un</b> marc am nodi dull cywir.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dargludiad</li> <li>• darfudiad</li> </ul>	1		
	(ii)	<p>Esboniwch sut mae gwres yn trosglwyddo er mwyn coginio'r pasta.</p> <p>Rhowch hyd at <b>un</b> marc am bob gosodiad esboniadol cywir hyd at uchafswm o <b>dri</b> marc.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <p>Dargludiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trosglwyddo gwres trwy gyswllt uniongyrchol o arwyneb poeth</li> <li>• mae gwres o'r hob yn cael ei drosglwyddo i fetel y badell</li> <li>• mae'r egni o'r hob yn achosi i'r moleciwlau yn y metel ddirgrynu fesul un a tharo yn erbyn ei gilydd gan gynhyrchu gwres</li> </ul>		3		3

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae gwres yn trosglwyddo i'r hylif yn y badell/cyffwrdd ag arwynebau poeth y badell sydd wedyn yn coginio'r pasta.</li> </ul> <p>Darfudiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trosglwyddo gwres trwy màs-symudiad gronynnau wedi'u gwresogi i mewn i fâs neu ardal oerach</li> <li>• mae'r egni gwres o'r badell fetel yn symud i ddŵr oer</li> <li>• mae moleciwlau dŵr yn dechrau symud o gwmpas yn gyflym iawn mewn symudiadau cylchol o'r enw ceryntau darfudiad</li> <li>• mae hylifau cynnes yn codi a rhai oerach yn suddo – cylchrediad cyson o wres yn coginio'r pasta.</li> </ul>				
--	--	---	--	--	--	--

Cwestiwn	Ateb
2.	(d) Dadansoddwch fanteision bwyta pasta gwenith cyflawn ar gyfer deiet cytbwys

### Cynnwys dangosol

Rhowch hyd at **ddau** farc AA2 am gymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran bwyta pasta gwenith cyflawn.

Rhowch hyd at **bedwar** marc AA3 am ddadansoddi manteision bwyta pasta gwenith cyflawn ar gyfer deiet cytbwys.

Cynnwys dangosol:

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

- mae pasta gwenith cyflawn yn cynnwys mwy o ffibr – sy'n helpu i annog ysgarthu rheolaidd, gan gefnogi system dreulio iach.
- gwneir pasta gwenith cyflawn o'r grawn cyflawn sy'n cynnwys bran, endosberm a germ – sy'n cynnwys maetholion hanfodol sy'n helpu i reoleiddio siwgr gwaed/iechyd cardiofasgwlar.
- mae pasta gwenith cyflawn yn gyfoethocach mewn mwynau, er enghraifft, magnesiwm / ffosfforws / potasiwm / haearn – sy'n cynnal iechyd cyffredinol gan helpu iechyd esgyrn / gweithrediad y cyhyrau / gweithrediad y system nerfol.
- mae pasta gwenith cyflawn yn gyfoethocach mewn fitamin B – sy'n cynnal iechyd cyffredinol gan helpu croen, gwallt, dannedd ac ewinedd iach.
- mae pasta gwenith cyflawn yn darparu ffibr anhydawdd yn y deiet – sy'n helpu i hybu iechyd y system dreulio, gan atal rhwymedd a hybu llwybr gastroberfeddol iach.
- mae cymeriant ffibr uwch yn gysylltiedig â gostwng colesterol gwaed – sy'n lleihau'r risg o glefyd y galon.

Rhowch farciau am unrhyw fantais dilys arall sy'n ymwneud â'r pasta yn llun B.

Rhowch farciau am unrhyw fantais ac anfantais ddilys arall sy'n ymwneud â bwyta pasta gwenith cyflawn.

Band	AA2	AA3
4	Nid oes unrhyw farciau band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Rhoddir 2 farc fel ar gyfer Band 2.	<b>Rhowch 4 Marc</b> Ymateb ardderchog sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddiad hynod effeithiol sy'n nodi perthnasoedd</li> <li>• mae'n cynnwys esboniad manwl o bob agwedd.</li> </ul>
3	Nid oes unrhyw farciau band 3 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Rhoddir 2 farc fel ar gyfer Band 2.	<b>Rhowch 3 Marc</b> Ymateb da sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddiad effeithiol sy'n nodi perthnasoedd</li> <li>• mae'n cynnwys esboniad manwl o bob agwedd.</li> </ul>

2	<p style="text-align: center;"><b>Rhowch 2 farc</b></p> <p>Ymateb da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o fanteision iechyd penodol bwyta pasta gwenith cyflawn.</li> </ul>	<p style="text-align: center;"><b>Rhowch 2 farc</b></p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhywfaint o ddadansoddiad sy'n nodi rhai perthnasoedd</li> <li>• mae'n cynnwys rhywfaint o esboniad o rai agweddau.</li> </ul>
1	<p style="text-align: center;"><b>Rhowch 1 Marc</b></p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision iechyd penodol bwyta pasta gwenith cyflawn.</li> </ul>	<p style="text-align: center;"><b>Rhowch 1 Marc</b></p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ychydig iawn o ddadansoddiad gyda pherthnasoedd cyfyngedig wedi'u nodi</li> <li>• esboniad byr neu dim esboniad.</li> </ul>
0	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>	

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau	
3.	(a)	Cysylltwch bob pâr drwy glicio ar bob llysieuyn (ar y chwith) a chlicio ar y grŵp mwyaf priodol (ar y dde).				
		Rhowch <b>un</b> marc am bob ateb cywir hyd at uchafswm o bedwar marc.		4		4
		Seleri – Coesyndau Cennin - Bylbiau Moron – Gwreiddlysiau Tatws – Cloron.				
	(b)	Cwblhewch y tabl isod gan roi dull storio addas ar gyfer pob llysieuyn.				
		Rhowch <b>un</b> marc am bob ymateb cywir hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.	2			2
		Cynnwys dangosol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tatws – lle oer, sych, tywyll</li> <li>• Brocoli – oergell (derbyniwch rhewgell).</li> </ul>				
(c)	Defnyddiwch y gwymplen i gysylltu'r maetholyn (ar y chwith) â'r ffrwyth (ar y dde) sy'n cael eu hystyried yn ffynhonnell dda o'r maetholyn hwnnw.					
	Rhowch <b>un</b> marc am bob ateb cywir hyd at uchafswm o <b>dri</b> marc.	3			3	
	Cynnwys dangosol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Potasiwm – Banana</li> <li>• Fitamin A – Bricyll</li> <li>• Fitamin C – Ciwi.</li> </ul>					

**Cwestiwn Ateb**

**3** (ch) Trafodwch yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.

**Cynnwys dangosol**

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

Mwy o filltiroedd bwyd – oherwydd bod llawer iawn o fwyd yn cael ei gludo dros bellteroedd hir o ganolfannau cynhyrchu ar raddfa fawr, gan gynyddu llygredd aer.

Llygredd dŵr – gall defnyddio gwrteithiau sy'n gysylltiedig â ffermio dwys arwain at gemegion yn golchi i afonydd a llynnoedd cyfagos, gan niweidio bywyd dyfrol.

Yn lleihau bioamrywiaeth – gall ffermwyr gael gwared ar wrychoedd i greu caeau mwy i'w galluogi i ffermio mewn ffordd ddwys, gan arwain at lai o fioamrywiaeth.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr – mae ffermio da byw dwys yn cynyddu faint o fethan sydd yn yr amgylchedd sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang.

Cynyddu'r defnydd o ddŵr – oherwydd y lefelau uchel o ddyfrhau sy'n gallu disbyddu adnoddau dŵr lleol.

Defnydd o Danwydd Ffosil: Mae ffermio dwys yn dibynnu'n helaeth ar beiriannau a chemegion sy'n defnyddio tanwydd ffosil, gan arwain at allyriadau carbon uwch.

Rhowch farciau am unrhyw ymateb derbyniol arall sy'n gysylltiedig â'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.

<b>Band</b>	<b>AA2</b>
<b>3</b>	<p><b>Rhowch 5-6 marc</b></p> <p>Trafodaeth wych sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.</li> <li>• Trafodaeth hynod effeithiol am y materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.</li> </ul>
<b>2</b>	<p><b>Rhowch 3-4 marc</b></p> <p>Trafodaeth dda sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.</li> <li>• Trafodaeth dda am y materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.</li> </ul>

<p><b>1</b></p>	<p style="text-align: center;"><b>Rhowch 1-2 farc</b></p> <p>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.</li> <li>• Rhywfaint o drafodaeth am y materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â ffermio dwys.</li> </ul>
<p><b>0</b></p>	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

SAMPLE



Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau	
4.	(a)	Nodwch faint o fraster sydd yn y pryd tikka masala cyw iâr a reis basmati.				
		Rhowch <b>un</b> marc am yr ateb cywir. • 25.2g.	1			1
	(b)	(i)	Nodwch <b>un</b> cynhwysyn braster uchel sy'n cael ei ddefnyddio yn y pryd tikka masala cyw iâr a reis basmati ac awgrymwch <b>un</b> cynhwysyn braster is amgen.			
			Rhowch <b>un</b> marc am nodi cynhwysyn braster uchel cywir. • hufen sengl • iogwrt • menyn heb halen.	1		
		(ii)	Rhowch <b>un</b> marc am nodi cynhwysyn braster is cywir. • llaeth hanner sgim neu sgim • iogwrt braster isel • sbred braster isel / menyn â llai o fraster.	1		
	(c)	Nodwch ddau gynhwysyn yn y pryd tikka masala cyw iâr a reis basmati a allai achosi problemau i berson sydd ag anoddefedd lactos.				
		Rhowch <b>un</b> marc am bob ateb cywir, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc. • llaeth • hufen • iogwrt • menyn heb halen.	2			2

	(ch)	<p>Esboniwch pam gallai defnyddwyr ddewis prynu pryd parod.</p> <p>Rhowch <b>un</b> marc am esboniad sylfaenol, hyd at uchafswm o <b>un</b> marc, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gall defnyddwyr ddewis prynu prydau parod oherwydd ei fod yn arbed amser coginio</li> <li>• gall defnyddwyr ddewis prynu prydau parod oherwydd ei fod yn gyfleus</li> <li>• gall defnyddwyr ddewis prynu prydau parod oherwydd gall fod yn fwy cost-effeithiol.</li> </ul> <p>Rhowch <b>ddau</b> farc am esboniad datblygedig, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gall defnyddwyr ddewis prynu prydau parod oherwydd ei fod yn arbed amser coginio, gan eu bod eisoes wedi'u paratoi</li> <li>• gall defnyddwyr ddewis prynu prydau parod oherwydd ei fod yn gyfleus, felly does dim angen paratoi cynhwysion</li> <li>• gall defnyddwyr ddewis prynu prydau parod oherwydd gall fod yn fwy cost-effeithiol gan nad oes rhaid i chi brynu llawer o gynhwysion.</li> </ul> <p>Rhowch <b>dri</b> marc am awgrym wedi'i ddatblygu'n llawn, er enghraifft:</p> <p>Mae prydau parod yn gofyn am ychydig iawn o amser paratoi a choginio, gan eu gwneud yn ddelfrydol ar gyfer pobl nad oes ganddynt yr amser i goginio o'r dechrau. Gellir eu cynhesu mewn ychydig funudau, gan gynnig opsiwn cyfleus ar gyfer prydau.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amrywiaeth – amrywiaeth eang o opsiynau sy'n addas i bob chwaeth.</li> <li>• Rheoli cyfrannau – mae'n haws rheoli cymeriant / gwastraff calorïau</li> <li>• Oes silff hirach – pan nad oes cynhwysion ar gael/mewn argyfwng.</li> <li>• Cost-effeithiol – pris cystadleuol, gan gynnig gwerth am arian o'i gymharu â choginio o'r dechrau</li> <li>• Yn gyflymach na choginio o'r dechrau</li> <li>• Angen llai o offer coginio neu gyfleusterau.</li> </ul> <p>Rhowch farciau am unrhyw ymatebion dilys arall.</p>		3		3
--	------	--	--	---	--	---

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau	
5.	(a)	Rhowch <b>dri</b> rheswm pam mae bwyd yn cael ei goginio.				
		Rhowch <b>un</b> marc am bob rheswm, hyd at uchafswm o <b>dri</b> marc.	3			3
		<p>Cynnwys dangosol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae coginio bwyd yn gywir yn dinistrio bacteria niweidiol.</li> <li>• Mae'n ei wneud yn haws ei dreulio – yn torri i lawr adeiledd cellog bwyd.</li> <li>• Mae'n gwella maeth bwyd – gan ei wneud yn bosibl i rai fitaminau gael eu hamsugno.</li> <li>• Mae'n datblygu blas – gwella arogl a gweadedd.</li> <li>• I atal gwenwyn bwyd.</li> <li>• Gall ymestyn oes silff.</li> </ul> <p>Rhowch farciau am unrhyw ymatebion dilys eraill.</p>				
	(b)	Disgrifiwch sut gall potsio a ffrio effeithio ar rinweddau synhwyrdd yr wyau ar ôl eu coginio.				
	(i)	Ffrio wyau				
		<p>Rhowch <b>un</b> marc am bob priodwedd gywir sy'n cael ei disgrifio, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> marc.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall wyau sydd wedi'u coginio mewn braster gael blas olewog/blasu fel menyn (yn dibynnu ar y math o fraster sy'n cael ei ddefnyddio).</li> <li>• Gall wyau sydd wedi'u coginio mewn braster roi gweadedd/teimlad y geg seimllyd.</li> <li>• Gall rhoi wyau mewn braster sy'n rhy boeth arwain at ymylon creisionllyd/wedi'u brownio a gall wyau orgoginio'n gyflym.</li> <li>• Gall rhoi wyau mewn olew oer wneud i'r wyau amsugno olew a rhoi gweadedd fel rwber.</li> <li>• Gall yr wyau gael ymddangosiad deniadol – wedi eu ffrio ar un ochr (melynwy ar y top).</li> </ul> <p>Rhowch farciau am unrhyw ymatebion dilys arall</p>		2		2

		(ii)	Potsio wyau				
			<p>Rhowch <b>un</b> marc am bob priodwedd gywir sy'n cael ei disgrifio, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall wyau sydd wedi'u coginio mewn dŵr fod yn ddi-flas.</li> <li>• Bydd finegr yn aml yn cael ei ychwanegu ar gyfer potsio – gall gormod roi blas finegr.</li> <li>• O ran ymddangosiad, gall y gwynnwy fod yn lled-dryloyw a'r melynwy yn llyfn.</li> <li>• Dylai siâp yr wy fod yn hirgrwn, gyda'r gwynnwy yn amgylchynu'r melynwy yn daclus.</li> <li>• Gall y gwadedd fod yn soeglyd/llaith iawn/fel rwber/tyner/meddal.</li> </ul> <p>Rhowch farciau am unrhyw ymatebion dilys arall.</p>		2		2

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau	
6.	(a)	Nodwch y math o ddeiet mae Morgan yn ei ddilyn.				
		Rhowch <b>un</b> marc am yr ateb cywir.	1			1
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Llysieuol</li> <li>Lacto-oyo</li> <li>Ofo.</li> </ul>				
	(b)	Aseswch y manteision maethol i Morgan o ddilyn y math hwn o ddeiet.				
	Rhowch hyd at <b>ddau</b> farc AA2 am gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth.		2	4	6	
	Rhowch hyd at <b>bedwar</b> marc AA3 am asesu'r manteision maethol i Morgan o fwyta'r math hwn o ddeiet.					
<b>Cynnwys dangosol</b>						
Cynnwys dangosol:						
Gall atebion gyfeirio at y canlynol:						
Gall dilyn deiet llysieuol/deiet lacto-oyo/deiet ofo/peidio â bwyta unrhyw gig/dofednod neu bysgod:						
<ul style="list-style-type: none"> <li>arwain at fwyta llai o fraster dirlawn – sy'n gallu lleihau'r risg o ddiabetes math 2</li> <li>lleihau'r risg o golesterol y gwaed uchel – gall hyn leihau'r risg o glefyd y galon, strôc, a chyflyrau cardiofasgwlar eraill</li> <li>golygu bod llai o galoriau yn cael eu bwyta oherwydd bod mwy o fwydydd planhigion/llysiau'n cael eu bwyta – gall hyn helpu i reoli pwysau, atal gordewdra sy'n gallu arwain at risgiau iechyd fel diabetes</li> <li>golygu eich bod yn bwyta mwy o fwydydd llysiau/seiliedig ar blanhigion – gall hyn arwain at ysgarthu rheolaidd sy'n cefnogi system dreulio iach</li> <li>golygu eich bod yn bwyta mwy o lysiau/ffa, codlysiu a mwy o fitaminau – sy'n gallu lleihau'r risg o glefydau cronig fel clefyd y galon, strôc, diabetes math 2, mathau penodol o ganser, a gordewdra.</li> </ul>						
Rhowch farciau am atebion dilys eraill.						

<b>Band</b>	<b>AA2</b>	<b>AA3</b>
<b>4</b>	<p>Nid oes unrhyw farciau band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.</p> <p>Rhoddir 2 farc fel ar gyfer Band 2.</p>	<p><b>Rhowch 4 Marc</b></p> <p>Asesiad ardderchog sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesiad hynod effeithiol o'r berthynas rhwng dilyn deiet llysiuol a'r manteision maethol</li> <li>• asesiad trylwyr o bob agwedd.</li> </ul>
<b>3</b>	<p>Nid oes unrhyw farciau band 3 ar gyfer yr amcan asesu hwn.</p> <p>Rhoddir 2 farc fel ar gyfer Band 2.</p>	<p><b>Rhowch 3 Marc</b></p> <p>Asesiad da iawn sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesiad effeithiol o'r berthynas rhwng dilyn deiet llysiuol a'r manteision maethol</li> <li>• asesiad manwl o bob agwedd.</li> </ul>
<b>2</b>	<p><b>Rhowch 2 farc</b></p> <p>Ymateb da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o fanteision maethol penodol bwyta deiet llysiuol.</li> </ul>	<p><b>Rhowch 2 farc</b></p> <p>Ymateb da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesiad clir o'r berthynas rhwng dilyn deiet llysiuol a'r manteision maethol</li> <li>• mae'n cynnwys asesiad clir o bob agwedd.</li> </ul>
<b>1</b>	<p><b>Rhowch 1 Marc</b></p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o fanteision maethol penodol bwyta deiet llysiuol</li> </ul>	<p><b>Rhowch 1 Marc</b></p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesiad cyfyngedig o'r berthynas rhwng dilyn deiet llysiuol a'r manteision maethol</li> <li>• mae'n cynnwys asesiad cyfyngedig o bob agwedd.</li> </ul>
<b>0</b>	<p><b>0 marc</b></p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>	

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
6.	(c)	Mae Morgan wedi bod yn teimlo'n sâl ac wedi cael diagnosis o anaemia.			
	(i)	Rhowch <b>ddau</b> o achosion anaemia.			
		Rhowch <b>un</b> marc am bob achos cywir, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc	2		2
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• dim digon o haearn yn y deiet / diffyg haearn</li> <li>• diffyg Fitamin B12</li> <li>• diffyg Ffolad neu Fitamin B9</li> <li>• diffyg Fitamin C.</li> </ul>			
	(ii)	Cynghorwch Morgan am <b>ddwy</b> ffordd y gall pobl ag anaemia sicrhau bod eu hanghenion maeth yn cael eu bodloni.			
		Rhowch <b>un</b> marc am bob darn cywir o gyngor sylfaenol, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.		4	4
		<p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bwyta bwydydd sy'n cynnwys llawer o haearn, fel sbigoglys</li> <li>• bwyta bwydydd sy'n cynnwys llawer o fitamin C, fel orennau</li> <li>• yfed digon o ddŵr, ceisio yfed wyth gwydraid y dydd</li> <li>• bwyta prydau a byrbrydau maethlon yn rheolaidd, ceisio bwyta 3 phryd y dydd.</li> </ul> <p>Rhowch <b>ddau</b> farc am bob darn cywir o gyngor datblygedig, hyd at uchafswm o <b>bedwar</b> marc.</p> <p>Cynnwys dangosol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bwyta bwydydd sy'n cynnwys llawer o haearn, fel ffa coch, ffachbys, cnau gan eu bod yn gallu helpu i ailgyflenwi storfeydd haearn yn y corff, cynyddu lefelau haemoglobin a chelloedd coch y gwaed</li> <li>• bwyta bwydydd sy'n cynnwys llawer o fitamin C, fel orennau, mae'r rhain yn helpu i amsugno haearn trwy ei gwneud hi'n haws i'r coluddion gymryd yr haearn o fwyd, sy'n galluogi'r corff i gael mwy allan o'r</li> </ul>			

		<p>bwydydd sy'n cynnwys llawer o haearn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yfed digon o ddŵr i gynnal iechyd, treuliad, ac amsugno maeth yn gyffredinol. ceisio yfed 6 gwydraid o ddŵr y dydd</li> <li>bwyta prydau maethloner mwyn helpu i reoleiddio metaboledd a sicrhau cymeriant cyson o faetholion trwy gydol y dydd. Cynllunio ar gyfer tri phrif bryd a rhwng dau a thri byrbryd iach i gadw lefelau egni yn sefydlog.</li> </ul> <p>Rhowch farciau am nodi diffygion dilys eraill.</p>				
	(iii)	Enwch <b>ddau</b> angen neu ddiffyg arall sy'n gysylltiedig â deiet.				
		<p>Rhowch <b>un</b> marc am bob diffyg cywir a nodir, hyd at uchafswm o <b>ddau</b> farc.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Clefyd cardiofasgwlar</li> <li>Clefyd coeliag</li> <li>Anoddefedd bwyd</li> <li>Alergeddau bwyd</li> <li>Diabetes math 2</li> <li>Ceudodau deintyddol</li> <li>Osteoporosis.</li> </ul> <p>Rhowch farciau am atebion dilys eraill.</p>	2			2



7. Mae Elis wedi symud yn ôl i Gymru yn ddiweddar ac mae eisiau bwyta mwy o gynnyrch Cymreig.

Aseswch y manteision a'r anfanteision i Elis o brynu bwyd yn lleol.

### Cynnwys dangosol

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

Manteision

#### Manteision amgylcheddol

- Trwy brynu bwyd yn fwy lleol, mae Elis yn fwy ecogyfeillgar gan y gall hyn leihau faint o filltiroedd bwyd sy'n gysylltiedig â chludo bwyd. Gall hyn leihau faint o allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n cael ei fewnforio o wledydd eraill sy'n aml yn defnyddio lorïau, cynwysyddion llongau a hyd yn oed llwythi awyr.
- Trwy brynu bwyd yn fwy lleol, mae Elis yn fwy ecogyfeillgar gan fod hyn yn gallu lleihau cyfanswm y gwastraff plastig. Mae'n debygol y bydd llai o ddefnydd pecynnu ar fwyd sy'n cael ei werthu'n lleol, gan ei fod yn tueddu i fod yn fwyd ffres, gall hyn leihau faint o blastig sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a chefnforoedd, a thrwy hynny ddiogelu bywyd gwylt ac ecosystemau.
- Trwy brynu bwyd yn lleol, mae Elis yn annog arferion amaethyddol cynaliadwy. Mae ffermwyr lleol yn aml yn defnyddio technegau ffermio ecogyfeillgar, fel cylchdroi cnydau a ffermio organig, sy'n gallu arwain at briddoedd iachach, llai o ddefnydd o blaleiddiaid, a gwell cadwraeth o fioamrywiaeth leol, gan gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol.

#### Manteision economaidd

- Trwy brynu bwyd yn lleol, mae Elis yn cefnogi tyfwrwr, ffermwyr a chynhyrchwyr lleol. Gall y gefnogaeth hon roi hwb i'r economi leol drwy greu swyddi, cyfrannu at dwf economaidd, a sicrhau bod mwy o arian yn cylchredeg yn y gymuned, gan fod o fudd i fusnesau a gwasanaethau lleol.

#### Cynhwysion ffres/tymhorol

- Trwy siopa'n lleol, mewn marchnadoedd ffermwyr o bosibl, bydd Elis yn elwa o gynhwysion ffres/tymhorol, gyda gwerth maethol uwch gan eu bod yn cael eu casglu pan maen nhw ar eu mwyaf aeddfed sy'n arwain at well ansawdd gan nad oes angen eu storio am gyfnod hir gan nad oes rhaid iddyn nhw deithio pellteroedd hir. Mae bwydydd tymhorol yn aml yn fwy blasus a gallent ychwanegu mwy o amrywiaeth at ei ddeiet dyddiol/wythnosol.
- Trwy siopa'n lleol, efallai bydd Elis yn fwy mentrus gyda bwyd a choginio, gan fod yn rhaid i berson sy'n prynu'n lleol brynu'r hyn sydd ar gael yn dymhorol neu ar y diwrnod. Gallai hyn annog Elis i fwyta bwydydd mwy amrywiol, sy'n aml yn cael eu tyfu ac sy'n gallu cynnig mwy o fanteision iechyd o'i gymharu â bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw.

## **Anfanteision**

### **Cost uwch**

- Gallai prynu bwyd yn lleol fod yn ddrutach i Elis. Gallai cost y cynnyrch fod yn fwy oherwydd bod y cynnyrch / nwyddau yn cael eu cynhyrchu ar raddfa lai a allai olygu bod llawer o brosesau tyfu / cynhyrchu yn cael eu gwneud â llaw. Gall hyn arwain at gostau llafur cynyddol a chyfeintiau cynhyrchu llai, gan arwain at brisiau uwch o'i gymharu â nwyddau masgynnyrch.

### **Dewisiadau cyfyngedig**

- Efallai na fydd Elis yn gallu cael y cynnyrch y byddai'n hoffi ei gael yn lleol oherwydd y patrymau tywydd anghyson yng Nghymru, gallai fod dewis cyfyngedig o bethau y gellir eu magu / tyfu'n lleol. Efallai na fydd Elis yn gallu dibynnu ar gyflenwyr, sydd efallai ddim yn gallu cynhyrchu digon i ateb y galw. Gall hyn olygu bod Elis yn llai abl i gynllunio bwydlenni wythnosol oherwydd nad yw'n gwybod pa fwyd sydd ar gael.

### **Mwy o wastraff bwyd**

- Weithiau gall prynu cynnyrch lleol arwain at fwy o wastraff bwyd. Mae bwyd lleol yn aml yn golygu oes sillff byrrach gan ei fod yn ffres ac yn rhydd o gadwolion. Gall hyn arwain at gynnyrch yn difetha'n gyflymach os na chaiff ei ddefnyddio'n fuan. Gall hyn arwain at daflu bwyd os na chaiff ei ddefnyddio mewn pryd.

Rhowch farciau am unrhyw ateb derbyniol arall.

<b>Band</b>	<b>AA3</b>
	<b>Rhowch 7-8 marc</b>
<b>4</b>	<p>Asesiad ardderchog sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chlr o'r manteision ac anfanteision i Elis o brynu bwyd yn lleol</li> <li>• Mae'r ymateb yn asesu'r manteision ac anfanteision i Elis. Maent yn fanwl ac yn effeithiol iawn gyda barn glir a gefnogir yn dda.</li> </ul>
	<b>Rhowch 5-6 marc</b>
<b>3</b>	<p>Asesiad da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r manteision ac anfanteision i Elis o brynu bwyd yn lleol</li> <li>• Mae'r ymateb yn asesu'r manteision ac anfanteision i Elis. Maent yn glir ac yn effeithiol gyda barn glir yn cael ei llunio.</li> </ul>
	<b>Rhowch 3-4 marc</b>
<b>2</b>	<p>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r effaith mae defnyddio mwy o gynnyrch Cymreig yn ei gael ar Elis</li> <li>• Mae'r ymateb yn asesu'r manteision a/neu anfanteision i Elis sy'n glir ac yn effeithiol.</li> </ul>
	<b>Rhowch 1-2 marc</b>
<b>1</b>	<p>Asesiad cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r manteision ac anfanteision i Elis o brynu bwyd yn lleol</li> <li>• Mae'r ymateb yn ceisio asesu un fantais neu un anfantais i Elis.</li> </ul>
	<b>Rhowch 0 marc</b>
<b>0</b>	Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1

Cwestiwn			Dyranïad marciau																					
			Testun ac Adran																					
			1.1	1.2			1.3			1.4			1.5				1.6							
			1.1.1	1.2.1	1.2.2	1.2.3	1.3.1	1.3.2	1.3.3	1.4.1	1.4.2	1.4.3	1.5.1	1.5.2	1.5.3	1.5.4	1.6.1	1.6.2	1.6.3	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm	
1	a													✓							2			2
1	b													✓		✓					3			3
1	c	i												✓								2		2
1	c	ii												✓								2		2
1	ch												✓									2		2
2	a	i			✓																1			1
	a	ii			✓																1			1
2	b		✓																		2			2

2	c		✓																2			2
2	ch	i								✓									1			1
2	ch	ii								✓										3		3
2	d		✓																	2	4	6
3	a		✓																		4	4
3	b		✓																	2		2
3	c		✓																	3		3
3	ch																	✓			6	6
4	a			✓																1		1
4	b	i		✓																1		1
4	b	ii		✓																1		1
4	c							✓	✓											2		2
4	ch								✓												3	3
5	a									✓										3		3

5	b	i										✓									2		2	
5	b	ii										✓									2		2	
6	a								✓												1		1	
6	b								✓													2	4	6
6	c	i							✓												2		2	
6	c	ii							✓														4	4
6	c	iii							✓												2		2	
7	a																		✓				8	8
																					30	30	20	80

# Atodiad A – Asesiad Digidol CBAC Bwyd a Maeth

## Gwybodaeth Asesu Digidol

### 1. Trefniadau'r arholiad digidol a'r mynediad iddo:

Bydd arholiadau digidol yn cael eu hanfon i ganolfannau trwy feddalwedd Surpass. Bydd angen gosod rhaglen o'r enw WJEC SecureClient ar gyfrifiaduron personol ymgeiswyr o fewn canolfannau fel y gall ymgeiswyr gwblhau'r arholiadau. Bydd meddalwedd Surpass ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd a bydd canolfannau yn cael eu hannog i gwblhau arholiadau ymarfer (e.e. Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Digidol a chyn-bapurau wrth iddynt ddod ar gael) gan ddefnyddio'r feddalwedd asesu ar-sgrin fel y gall ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r feddalwedd yn barod at yr arholiadau byw.

### 2. Rheolaethau mewn arholiadau digidol:

Bydd angen i staff y ganolfan:

- addasu hyd arholiadau ar-sgrin ar gyfer ymgeiswyr sydd angen amser ychwanegol (trefniadau mynediad)
- sicrhau y gall goruchwylwyr fewngofnodi i Surpass er mwyn gallu gwasgu botwm saib ac aildddechrau arholiadau wrth gyflwyno arholiadau ar-sgrin. Fe'i defnyddir ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael egwylliau gorffwys dan oruchwyliaeth (trefniadau mynediad) ac ar gyfer materion yn ymwneud ag unigolion neu â'r garfan a allai ddigwydd yn ystod arholiadau byw e.e. tarfu.

Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud y canlynol:

- newid dewisiadau lliw yr arholiad ar-sgrin.
- chwyddo i mewn/allan.

### 3. Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr ar gyfer arholiadau digidol:

Bydd canolfannau'n derbyn Canllaw Defnyddiwr i Ymgeiswyr ar gyfer ymgeiswyr sy'n cwblhau asesiadau ar-sgrin. Bydd meddalwedd Surpass ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd a bydd canolfannau yn cael eu hannog i gwblhau arholiadau ymarfer (e.e. Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Digidol a chyn-bapurau wrth iddynt ddod ar gael) gan ddefnyddio'r feddalwedd asesu ar-sgrin fel y gall ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r feddalwedd yn barod at yr arholiadau byw.

### 4. Trefniadau arholiadau digidol – eglurder ynghylch cefnogaeth:

Bydd CBAC yn amserlennu arholiadau byw o leiaf 7 diwrnod cyn dyddiad yr arholiad. Bydd sgrin 'Cartref' Surpass yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo gyda gosod a phrofi'r feddalwedd yn ogystal â chanllaw defnyddiwr sy'n manylu ar y broses weinyddol o gyflwyno arholiadau ar-sgrin mewn canolfan.